# Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011

**2011 mccc 3**

E+W

Mesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu systemau llethu tân awtomatig mewn mangreoedd preswyl newydd yng Nghymru.

**Mae'r Mesur hwn, a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 16 Chwefror 2011 ac a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn Ei Chyngor ar 7 Ebrill 2011, yn deddfu'r darpariaethau a ganlyn:—**

## 1 Dyletswydd i ddarparu systemau llethu tân awtomatig E+W

(1) Rhaid i waith adeiladu y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddo, mewn perthynas â phob preswylfa y mae'n gymwys iddi, gydymffurfio â gofynion is-adran (4) unwaith—

(a) y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, neu

(b) y bydd y breswylfa wedi'i meddiannu at ddibenion preswyl,

pa un bynnag sydd gynharaf.

(2) Yn ddarostyngedig i is-adran (3), mae'r Mesur hwn yn gymwys i waith adeiladu yng Nghymru sy'n cynnwys—

(a) adeiladu adeilad i fod yn un breswylfa neu fwy,

(b) trosi adeilad, neu ran o adeilad, i fod yn un breswylfa neu fwy,

(c) isrannu un breswylfa bresennol neu fwy er mwyn creu un breswylfa newydd neu fwy, neu

(d) cyfuno preswylfeydd presennol er mwyn creu preswylfa newydd neu breswylfeydd newydd.

(3) Nid yw'r Mesur hwn yn gymwys i waith adeiladu—

(a) sy'n cael ei gyflawni at ddibenion unrhyw un o swyddogaethau Gweinidogion y Goron, neu

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Measure yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011. (See end of Document for details)*

(b) os yw rheoliadau adeiladu sy'n gosod gofynion o ran darparu systemau llethu tân awtomatig yn gymwys i'r gwaith hwnnw neu os y byddai'n gymwys oni bai am gyfarwyddyd o dan adran 8 o Ddeddf 1984 sy'n hepgor gofynion o'r fath.

(4) Gofynion yr is-adran hon yw—

(a) bod rhaid darparu system llethu tân awtomatig ym mhob preswylfa,

(b) bod y system yn gweithio'n effeithiol, ac

(c) bod y system yn cydymffurfio â'r cyfryw ofynion ag a ragnodir.

(5) Mae'r cyfeiriadau yn is-adran (4) at system llethu tân awtomatig hefyd yn cynnwys unrhyw gyflenwad ynni, dŵr, neu sylwedd arall, sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y system yn gweithio'n effeithiol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1(4) mewn grym ar 8.4.2011 at ddibenion penodedig, gweler **a. 9(2)(a)**

**I2** A. 1(1)-(3) mewn grym ar 30.4.2014 at ddibenion penodedig ac 1.1.2016 at ddibenion penodedig gan O.S. 2013/2727, **ergl. 2(1)(a)**(2) (ynghyd ag ergl. 2(3))

**I3** A. 1(4) mewn grym ar 30.4.2014 at ddibenion penodedig ac 1.1.2016 at ddibenion penodedig gan O.S. 2013/2727, **ergl. 2(1)(b)**(2) (ynghyd ag ergl. 2(3))

**I4** A. 1(5) mewn grym ar 30.4.2014 at ddibenion penodedig ac 1.1.2016 at ddibenion penodedig gan O.S. 2013/2727, **ergl. 2(1)(c)**(2) (ynghyd ag ergl. 2(3))

PROSPECTIVE

## 2 Gorfodi E+W

(1) Ac eithrio fel y darperir gan is-adran (3), dyletswydd awdurdod lleol yw gorfodi darpariaethau'r Mesur hwn mewn perthynas â'i ardal.

(2) Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch gorfodi gan awdurdodau lleol

(3) Caiff is-adran (1) rym yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Atodlen 2 (Gwaith adeiladu a oruchwylir gan rywun ac eithrio awdurdodau lleol).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 2 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 9(3)**

## 3 Darparu gwybodaeth E+W

(1) Lle y bydd, yn unol â rheoliadau adeiladu—

(a) hysbysiad yn cael ei roi i awdurdod lleol o gynnig i wneud gwaith adeiladu y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddo, neu

(b) cynlluniau llawn o waith o'r fath yn cael eu hadneuo gydag awdurdod lleol,

rhaid i hysbysiad neu gynlluniau o'r fath gynnwys y cyfryw wybodaeth ag sy'n ofynnol o dan is-adran (2) neu rhaid i wybodaeth o'r fath fynd gydag ef, a rhaid cynnwys y cyfryw ffi a ragnodir.

(2) Yr wybodaeth sy'n ofynnol gan yr is-adran hon yw'r cyfryw wybodaeth, at ddibenion dangos bod modd i'r gwaith, unwaith y caiff ei gwblhau, gydymffurfio â gofynion adran 1(4), ac sydd, boed mewn perthynas â ffurf neu â chynnwys, wedi'i rhagnodi.

(3) Os, ar ôl rhoi hysbysiad o'r fath neu adneuo cynlluniau o'r fath, nad yw'r wybodaeth sy'n ofynnol gan is-adran (2)—

(a) yn gyflawn ym marn yr awdurdod lleol, neu

(b) yn dangos bod modd i'r gwaith, unwaith y caiff ei gwblhau, gydymffurfio â gofynion is-adran 1(4) ym marn yr awdurdod lleol,

rhaid i'r awdurdod, o fewn y cyfnod perthnasol, roi hysbysiad yn ysgrifenedig o'r farn honno i'r person a roddodd yr hysbysiad hwnnw neu, yn ôl y digwydd, y person a adneuodd y cynlluniau hynny, gan nodi'r rhesymau dros y farn honno.

(4) Caiff person sydd wedi cael hysbysiad o dan is-adran (3) ddiwygio'r wybodaeth y mae'r hysbysiad yn perthyn iddi a'i chyflwyno i'r awdurdod lleol, ac, yn yr achos hwnnw, ni fydd grym i'r hysbysiad a roddir o dan is-adran (3), ac, yn ddarostyngedig i is-adran (5), bydd is-adrannau (2) a (3) yn gymwys mewn perthynas â'r wybodaeth honno fel pe bai wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad neu'r cynlluniau y cyfeirir atynt yn is-adran (1) neu fel pe bai wedi mynd gyda hwy.

(5) Os caiff gwybodaeth ddiwygiedig ei chyflwyno o dan is-adran (4), bydd y cyfnod perthnasol y cyfeirir ato yn is-adran (3) yn mynd o'r dyddiad y cafodd yr awdurdod lleol yr wybodaeth.

(6) At ddibenion y Mesur hwn, ystyr "y cyfnod perthnasol" (*"the relevant period")* yw pum wythnos neu'r cyfryw gyfnod estynedig sy'n dod i derfyn heb fod yn hwyrach na deufis ar ôl—

(a) rhoi'r hysbysiad neu adneuo'r cynlluniau, neu

(b) pan fydd is-adran (4) yn gymwys, y dyddiad y cafodd yr awdurdod lleol yr wybodaeth,

ag a gytunir yn ysgrifenedig cyn diwedd y pum wythnos ar y cyd â'r awdurdod lleol a'r person sy'n rhoi'r cyfryw hysbysiad neu'n adneuo'r cyfryw gynlluniau.

(7) Mewn unrhyw achos pan fydd cwestiwn yn codi ynghylch cywirdeb barn awdurdod lleol y seiliwyd hysbysiad a roddwyd o dan is-adran (3) arni, caiff y person y cafodd y cyfryw hysbysiad ei roi iddo gyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru i'w benderfynu a chaiff Gweinidogion Cymru ddiddymu, addasu neu gadarnhau'r hysbysiad.

(8) Rhaid i'r ffi a ragnodir fynd gydag unrhyw gyfeiriad at Weinidogion Cymru o dan is-adran (7).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** A. 3(1)(2) mewn grym ar 8.4.2011 at ddibenion penodedig, gweler **a. 9(2)(a)**

PROSPECTIVE

**4 Dilysu a chyflwyno dogfennau E+W**

Mae darpariaethau'r adrannau canlynol o Ddeddf 1984 yn gymwys mewn perthynas â dogfennau yr awdurdodir neu y gorfodir eu rhoi, eu gwneud, eu dyroddi neu'u

cyflwyno o dan y Mesur hwn, fel y maent yn gymwys mewn perthynas â'r rhai a roddir, a wneir, a ddyroddir neu a gyflwynir o dan y Ddeddf honno—

(a) adran 93 (dilysu dogfennau),

(b) adran 94 (cyflwyno dogfennau), ac

(c) adran 94A (cyflwyno dogfennau'n electronig).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** A. 4 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler a. 9(3)

PROSPECTIVE

## 5 Erlyn am dramgwyddau E+W

Dim ond y canlynol sy'n cael cychwyn achos llys mewn perthynas â thramgwydd a grëwyd gan y Mesur hwn neu oddi tano—

(a) yr awdurdod lleol, neu

(b) Gweinidogion Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** A. 5 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler a. 9(3)

## 6 Dehongli E+W

(1) Yn y Mesur hwn—

ystyr "awdurdod lleol" (*"local authority"*) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru,

ystyr "y Cynulliad" *("the Assembly")* yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru,

"Deddf 1984 " *("the 1984 Act")* yw Deddf Adeiladu 1984 (p.55),

ystyr "gwaith adeiladu" ("*building work*") yw gwaith i godi, estyn neu addasu adeilad,

**[**[F1]"mae i "fflat" ("flat") yr ystyr a roddir i "flat" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Adeiladu 2010(1)"**]**

**[**[F1]"mae i "tŷ annedd" ("dwelling-house") yr ystyr a roddir i "dwelling-house" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Adeiladu 2010"**]**

"hysbysiad corff cyhoeddus" (*"public body's notice"*) yw'r ystyr a roddir iddo yn Rhan 2 o Ddeddf 1984,

"hysbysiad cychwynnol" (*"initial notice"*) yw'r ystyr a roddir iddo yn Rhan 2 o Ddeddf 1984,

ystyr "perchennog" (*"owner"*) yw'r ystyr a roddir iddo yn Neddf 1984,

ystyr "preswylfa" *("residence")* yw—

(a) tŷ annedd,

(b) fflat,

(c) **[**[F2]man yng Nghymru lle y mae gwasanaeth cartref gofal o fewn ystyr Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn

cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i bersonau sy'n 18 oed neu'n hŷn,**]**

(d) **[**[F3]neuadd breswyl;

(e) ystafell neu gyfres o ystafelloedd, nad yw'n dŷ annedd nac yn fflat ac sy'n cael ei defnyddio gan un neu fwy o bersonau i fyw a chysgu ynddi ac sy'n cynnwys ystafell mewn hostel neu dŷ preswyl, ond nid yw'n cynnwys—

(i) ystafell mewn gwesty;

(ii) ystafell mewn hostel sy'n cael ei darparu fel llety dros dro i'r rhai hynny sy'n preswylio fel arfer yn rhywle arall;

(iii) ystafell mewn ysbyty neu sefydliad tebyg arall sy'n cael ei defnyddio fel llety i gleifion;

(iv) ystafelloedd mewn carchar neu sefydliad troseddwyr ifanc;

(v) mangre ar gyfer lletya personau sydd wedi eu remandio ar fechnïaeth;

(vi) mangre ar gyfer lletya personau y gall fod yn ofynnol iddynt, drwy orchymyn prawf breswylio yno, [F4]...**]**

(ea) **[**[F5]mangre lle y mae gwasanaeth llety diogel o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) yn cael ei ddarparu, neu;**]**

(f) **[**[F6]man lle y mae gwasanaeth cartref gofal o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, ond nid—

(i) sefydliad yn y sector addysg bellach fel y'i diffinnir gan adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992;

(ii) man lle y mae llety yn cael ei ddarparu at ddibenion—

(aa) gwyliau;

(bb) gweithgaredd hamdden, adloniant, chwaraeon, diwylliannol neu addysgol;

oni bai bod plentyn yn cael ei letya yno am fwy nag 28 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis; a**]**

lle y mae adeilad yn cynnwys un breswylfa neu fwy, yn cynnwys unrhyw ran o'r adeilad hwnnw y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio gan y rheini sy'n byw yn y breswylfa honno neu'r preswylfeydd hynny at ddibenion atodol i'r feddiannaeth honno sy'n gyffredin â'i gilydd neu â defnyddwyr eraill yr adeilad,

ystyr "rhagnodwyd" *("prescribed")* yw wedi'i ragnodi gan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru,

ystyr "rheoliadau adeiladu" *("building regulations")* yw rheoliadau a wneir o dan adran 1 o Ddeddf 1984,

ystyr "swyddog awdurdodedig" (*"authorised officer"*) yw swyddog awdurdod lleol sydd wedi'i awdurdodi yn ysgrifenedig gan yr awdurdod hwnnw, boed yn gyffredinol neu'n benodol, i weithredu mewn materion o fath arbennig neu mewn mater penodol, ac

ystyr "swyddog priodol" (*"proper officer"*), mewn perthynas â phwrpas ac ag awdurdod lleol, yw swyddog a benodwyd at y diben hwnnw gan yr awdurdod hwnnw.

**[**[F7](1A) Yn is-adran (1), ystyr "plentyn" yw person sydd o dan 18 oed.**]**

**Statws** *Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Measure yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011. (See end of Document for details)*

(2) Yn ddarostyngedig i is-adran (3), caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio diffiniad "preswylfa" yn is-adran (1) drwy—

(a) ychwanegu dosbarth o fangreoedd preswyl, neu

(b) diwygio'r disgrifiad o ddosbarth o fangreoedd preswyl sydd eisoes yn bodoli.

(3) Yn is-adran (2), ystyr "mangreoedd preswyl" ("*residential premises*") yw'r ystyr a roddir iddo yn—

(a) paragraff 7 o Ran 1 Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), unwaith y bydd mewn grym, neu

(b) tan hynny, Mater 11.1 yn Rhan 1 Atodlen 5 i'r Ddeddf honno.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 6(1) wedi eu mewnosod (30.4.2014) gan Gorchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/2723), erglau. 1(2), **2(2)**

**F2** Geiriau yn a. 6(1) wedi eu hamnewid (2.4.2018) gan Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2018 (O.S. 2018/195), rhlau. 2(1), **44(2)(a)**

**F3** Geiriau yn a. 6(1) wedi eu hamnewid (30.4.2014) gan Gorchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/2723), erglau. 1(2), **2(3)(a)**

**F4** Gair yn a. 6(1) wedi ei hepgor (2.4.2018) yn rhinwedd Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2018 (O.S. 2018/195), rhlau. 2(1), **44(2)(b)**

**F5** Geiriau yn a. 6(1) wedi eu mewnosod (2.4.2018) gan Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2018 (O.S. 2018/195), rhlau. 2(1), **44(2)(c)**

**F6** Geiriau yn a. 6(1) wedi eu hamnewid (2.4.2018) gan Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2018 (O.S. 2018/195), rhlau. 2(1), **44(2)(d)**

**F7** A. 6(1A) wedi ei fewnosod (2.4.2018) gan Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2018 (O.S. 2018/195), rhlau. 2(1), **44(3)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** A. 6 mewn grym ar 8.4.2011, gweler **a. 9(2)(b)**

## 7 Darpariaeth drosiannol a darpariaeth ganlyniadol etc E+W

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud y cyfryw ddarpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth arbed, darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth atodol a darpariaeth arall ag y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol mewn cysylltiad â'r Mesur hwn neu i roi llwyr effaith iddo.

(2) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan yr adran hon yn cynnwys darpariaeth sy'n diwygio, diddymu neu fel arall yn addasu deddfiad, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

(3) Yn yr adran hon, mae "deddfiad" yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, Mesur Cynulliad, Deddf Cynulliad neu Ddeddf Seneddol, ac is-ddeddfwriaeth, pa un a ddaethant i rym cyn neu ar ôl i'r adran hon ddod i rym.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** A. 7 mewn grym ar 8.4.2011, gweler **a. 9(2)(b)**

## 8 Rheoliadau a gorchmynion E+W

(1) Mewn perthynas â rheoliadau neu orchmynion a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur hwn—

(a) rhaid eu gwneud drwy offeryn statudol,

(b) caniateir gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol, dosbarthiadau gwahanol o achosion a dibenion gwahanol,

(c) caniateir gwneud unrhyw ddarpariaethau trosiannol, darfodol, canlyniadol, arbed, cysylltiedig neu atodol fel y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda,

(d) caniateir eu gwneud, yn achos rheoliadau sy'n rhagnodi materion at ddibenion adrannau 1(4)(c), 3(1) neu 3(2), dim ond ar ôl i Weinidogion Cymru gynnal y cyfryw ymgynghoriad ag y maent o'r farn ei fod yn briodol,

(e) caniateir eu gwneud, yn achos—

(i) gorchmynion a wneir o dan adran 6(2), a

(ii) gorchmynion a wneir o dan adran 7(1) sy'n diwygio, yn diddymu neu'n addasu unrhyw Fesur Cynulliad, Deddf y Cynulliad neu Ddeddf Seneddol,

dim ond os oes drafft o'r gorchymyn wedi'i osod gerbron y Cynulliad a'i gymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad, ac

(f) ac eithrio—

(i) y rheini y cyfeirir atynt ym mharagraff (e), a

(ii) y rheini a wneir o dan adran 9(3),

maent yn agored i gael eu diddymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** A. 8 mewn grym ar 8.4.2011, gweler **a. 9(2)(b)**

## 9 Teitl byr a chychwyn E+W

(1) Enw'r Mesur hwn yw Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011.

(2) Daw darpariaethau canlynol y Mesur hwn i rym ar y diwrnod ar ôl cael Cymeradwyaeth Frenhinol—

(a) adrannau 1(4), 3(1) a 3(2), ond dim ond at ddiben galluogi materion i gael eu rhagnodi o dan adrannau 1(4)(c), 3(1) a 3(2), yn ôl y drefn honno,

(b) adrannau 6, 7 a 8, ac

(c) yr adran hon.

(3) Daw gweddill darpariaethau'r Mesur hwn i rym ar y cyfryw ddydd neu ddyddiau a benodir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** A. 9 mewn grym ar 8.4.2011, gweler **a. 9(2)(c)**

**Statws** Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Measure yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.
**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011. (See end of Document for details)

PROSPECTIVE

## ATODLEN 1 E+W

*(fel y'i cyflwynwyd gan adran 2)*

## GORFODI

*Y gosb am fynd yn groes i adran 1(1)*

1 Mae unrhyw berson sy'n gwneud gwaith adeiladu nad yw, ar yr adeg a ragnodir gan adran 1(1), yn cydymffurfio â gofynion adran 1(4), yn euog o dramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Atod. 1 para. 1 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 9(3)**

*Terfyn amser ar erlyn*

2 (1) Er gwaethaf unrhyw beth a geir yn adran 127(1) o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p.43), caiff llys ynadon roi ar brawf hysbysiaeth sy'n ymwneud â thramgwydd o dan baragraff 1 os caiff ei gosod ar unrhyw adeg—

(a) o fewn cyfnod o ddwy flynedd gan ddechrau ar y diwrnod y cyflawnwyd y tramgwydd, a

(b) o fewn cyfnod o chwe mis gan ddechrau ar y dyddiad perthnasol.

(2) Yn is-baragraff (1)(b), ystyr "y dyddiad perthnasol" ("*the relevant date*") yw'r dyddiad y daw tystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau achos llys i sylw'r person sy'n cychwyn yr achos.

(3) Mewn perthynas ag achos a gychwynnwyd gan awdurdod lleol—

(a) at ddibenion is-baragraff (2) uchod, ystyrir tystiolaeth yn ddigonol i gyfiawnhau achos os yw'n ddigonol ym marn y swyddog priodol neu'r swyddog awdurdodedig i gyfiawnhau achos, a

(b) bydd tystysgrif gan y swyddog priodol neu, yn ôl fel y digwydd, y swyddog awdurdodedig yn tystio i'r dyddiad y daeth y dystiolaeth sydd, ym marn y swyddog hwnnw, yn ddigonol i gyfiawnhau achos i sylw'r person sy'n cychwyn yr achos yn dystiolaeth derfynol o'r ffaith hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** Atod. 1 para. 2 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 9(3)**

*Addasu gwaith tramgwyddus*

3 (1) Os na fydd gwaith adeiladu y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddo yn cydymffurfio, ar yr adeg a ragnodir yn adran 1(1), â gofynion adran 1(4), ac os yw'r diffyg cydymffurfio â'r gofynion hynny yn parhau, caiff awdurdod lleol drwy hysbysiad

ofyn i'r perchennog wneud y cyfryw addasiadau a all fod eu hangen er mwyn i'r gwaith gydymffurfio â'r gofynion hynny, a hynny heb ragfarnu hawl yr awdurdod i ddwyn achos am ddirwy mewn perthynas â'r tramgwyddo.

(2) Os gwneir gwaith adeiladu y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddo—

(a) heb roi'r wybodaeth sydd ei hangen yn ôl adran 3(1), neu

(b) er gwaethaf y ffaith bod yr awdurdod lleol wedi rhoi hysbysiad o dan adran 3(3), a'r hysbysiad hwnnw'n parhau i fod mewn grym,

caiff yr awdurdod drwy hysbysiad ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gydymffurfio ag unrhyw ofynion a ragnodir yn yr hysbysiad, a'r rheini'n ofynion sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y gwaith yn cydymffurfio â gofynion adran 1(4).

(3) Os na fydd person sydd wedi cael hysbysiad o dan is-baragraff (1) neu (2) uchod yn cydymffurfio â'r hysbysiad cyn pen 28 o ddiwrnodau neu unrhyw gyfnod hwy y mae llys ynadon yn ei ganiatáu ar apêl gan y person hwnnw o dan baragraff 5, caiff yr awdurdod lleol wneud unrhyw addasiadau i'r gwaith y mae'n barnu eu bod yn angenrheidiol i sicrhau bod y gwaith yn cydymffurfio â gofynion adran 1(4), a chaiff adennill gan y person hwnnw y costau y mae'r awdurdod wedi mynd iddynt yn rhesymol wrth wneud.

(4) Mewn perthynas â hysbysiad o dan is-baragraff (1) neu (2) uchod (a elwir yn “hysbysiad paragraff 3”)—

(a) rhaid iddo fod ar y cyfryw ffurf a rhaid iddo gynnwys y cyfryw wybodaeth a all fod wedi'u rhagnodi,

(b) rhaid iddo ddatgan y caiff y person y rhoddir yr hysbysiad iddo, o fewn yr amser a bennir gan baragraff 9, apelio yn erbyn yr hysbysiad i lys ynadon o dan baragraff 5, a

(c) ni chaniateir ei roi ar ôl i 12 mis fynd heibio oddi ar ddyddiad cwblhau'r gwaith dan sylw.

(5) Ni chaniateir rhoi hysbysiad paragraff 3 os rhoddwyd yr wybodaeth sy'n ofynnol gan adran 3(1) i'r awdurdod ac os gwnaed y gwaith yn unol â'r wybodaeth honno, a hynny ar y sail nad oedd y gwaith yn cydymffurfio â gofynion adran 1(4), oni bai bod yr awdurdod wedi rhoi hysbysiad o dan adran 3(3) o fewn y cyfnod perthnasol.

(6) Nid yw'r paragraff hwn yn amharu ar hawl awdurdod lleol, Gweinidogion Cymru neu unrhyw berson arall i wneud cais am waharddeb i gael addasu unrhyw waith ar y sail nad yw'n cydymffurfio â gofynion adran 1(4), ond os—

(a) rhoddwyd gwybodaeth mewn perthynas â'r gwaith i'r awdurdod lleol yn unol ag adran 3(1),

(b) na roddodd yr awdurdod yr hysbysiad o dan adran 3(3) o fewn y cyfnod perthnasol, ac

(c) gwnaed y gwaith yn unol â'r wybodaeth honno,

bydd gan y llys, adeg caniatáu'r waharddeb, y pŵer i orchymyn bod yr awdurdod lleol yn talu perchennog y gwaith yr iawndal y mae'r llys yn barnu sy'n gyfiawn, ond, cyn gwneud y cyfryw orchymyn, rhaid i'r llys yn unol â rheolau'r llys drefnu bod yr awdurdod lleol yn un o bartïon yr achos, os nad ydyw eisoes.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Atod. 1 para. 3 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 9(3)**

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Measure yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011. (See end of Document for details)*

*Cael adroddiad lle rhoddir hysbysiad paragraff 3*

4 (1) Pan fydd—

(a) person sydd wedi cael hysbysiad paragraff 3 yn hysbysu'r awdurdod lleol a roddodd yr hysbysiad iddo o'i fwriad i gael adroddiad ysgrifenedig gan berson sydd wedi cymhwyso'n briodol ynghylch y gwaith y mae'r hysbysiad paragraff 3 yn perthyn iddo, a

(b) adroddiad o'r fath wedi'i gael ac wedi'i gyflwyno i'r awdurdod lleol ac os bydd yr awdurdod lleol, o ganlyniad i'w ystyriaeth ohono, yn tynnu yn ôl ei hysbysiad paragraff 3, caiff yr awdurdod lleol dalu'r person y rhoddwyd yr hysbysiad paragraff 3 iddo y swm y mae'r awdurdod yn barnu sy'n cynrychioli'r costau yr aed iddynt yn rhesymol gan y person o ganlyniad i'r hysbysiad a roddwyd gan yr awdurdod, gan gynnwys, ym mhlith pethau eraill, y gost o gael yr adroddiad.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3) isod, os bydd person sydd wedi cael hysbysiad paragraff 3 yn rhoi hysbysiad ei hun o dan is-baragraff (1)(a) uchod o ran y materion y mae'r hysbysiad paragraff 3 yn perthyn iddynt, dehonglir y cyfeiriad at 28 o ddiwrnodau ym mharagraff 3(3) uchod fel cyfeiriad at 70 o ddiwrnodau.

(3) Rhaid rhoi'r hysbysiad o dan is-baragraff (1)(a) uchod cyn pen y cyfnod o 28 o ddiwrnodau y cyfeirir ato ym mharagraff 3(3) uchod, neu, yn ôl fel y digwydd, o fewn cyfnod hwy y mae'r llys yn ei ganiatáu o dan baragraff 3(3); ac ni fydd is-baragraff (2) uchod yn gymwys pan fydd cyfnod hwy wedi'i ganiatáu cyn rhoi hysbysiad o dan is-baragraff (1)(a) uchod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I16** Atod. 1 para. 4 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 9(3)**

*Apelio yn erbyn hysbysiad paragraff 3*

5 (1) Caiff person sy'n cael hysbysiad paragraff 3 apelio i lys ynadon ar sail unrhyw un o'r canlynol os yw'n briodol o dan amgylchiadau'r achos penodol—

(a) nid oes modd cyfiawnhau'r hysbysiad neu unrhyw ofyniad y mae'n ei orfodi gan delerau paragraff 3,

(b) ceir rhyw afreoleidd-dra, nam neu wall yn yr hysbysiad, neu mewn perthynas ag ef,

(c) mae'r awdurdod yn afresymol wedi gwrthod cymeradwyo gwneud gwaith amgen, neu mae'r gwaith sy'n ofynnol gan yr hysbysiad fel arall yn afresymol o ran ei nodweddion neu ei faint, neu nid yw'r gwaith yn angenrheidiol;

(d) nid yw'r amser a ganiatawyd ar gyfer cyflawni'r gwaith yn rhesymol ddigon i'r pwrpas hwnnw.

(2) Os bydd apêl o dan yr adran hon wedi'i seilio ar ryw afreoleidd-dra, nam neu wall yn yr hysbysiad neu mewn perthynas ag ef, i'r graddau hynny, rhaid i'r llys wrthod yr apêl os yw wedi'i fodloni nad oedd yr afreoleidd-dra, nam neu wall yn sylweddol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** Atod. 1 para. 5 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 9(3)**

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Measure yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011. (See end of Document for details)*

*Y pŵer i fynd i mewn i fangreoedd*

6 (1) Yn ddarostyngedig i'r paragraff hwn, bydd gan swyddog awdurdod lleol yr hawl i fynd i mewn i unrhyw fangre ar bob adeg resymol, ar yr amod ei fod yn gallu dangos, ar gais, ryw ddogfen a awdurdodwyd yn briodol sy'n profi ei awdurdod, a hynny—

(a) at ddibenion canfod achos o fethu â chydymffurfio â gofynion y Mesur hwn, y mae'n ddyletswydd ar awdurdod lleol eu gorfodi, yn y fangre neu mewn perthynas â hi,

(b) at ddibenion canfod a oes amgylchiadau yn bod a fyddai'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gymryd unrhyw gamau, neu wneud unrhyw waith, o dan y Mesur hwn,

(c) er mwyn i'r awdurdod lleol gymryd unrhyw gamau, neu wneud unrhyw waith, a awdurdodir neu sy'n ofynnol gan y Mesur hwn, neu gan orchymyn a wnaed o dan y Mesur hwn, neu

(d) yn gyffredinol er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni ei swyddogaethau o dan y Mesur hwn.

(2) Ni cheir mynnu'r hawl i fynd i mewn i fangre oni roddwyd 24 awr o rybudd i'r meddiannwr o'r bwriad i fynd i mewn.

(3) Os gellir bodloni ynad heddwch gyda hysbysiaeth ysgrifenedig ar lw—

(a) y gwrthodwyd mynediad i unrhyw fangre, neu y dirnadwyd gwrthodiad o'r fath, neu os nad yw'r fangre wedi'i meddiannu, neu os yw'r meddiannwr yn absennol dros dro, neu os yw'r achos yn un brys, neu pe bai cais i gael mynediad yn trechu'r bwriad, a

(b) bod sail resymol dros gael mynd i mewn i'r fangre am unrhyw un o'r rhesymau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) uchod,

caiff yr ynad, gan warant drwy law'r ynad, awdurdodi'r awdurdod lleol drwy unrhyw swyddog awdurdodedig i gael mynediad i'r fangre, a hynny gan ddefnyddio grym, os bydd angen.

(4) Ni cheir cyhoeddi gwarant o dan is-baragraff (3) uchod oni bai y bodlonwyd yr ustus—

(a) y rhoddwyd hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant i'r meddiannwr, neu

(b) nad yw'r fangre wedi'i meddiannu, neu fod y meddiannwr yn absennol dros dro, neu fod yr achos yn un brys, neu y byddai rhoi'r hysbysiad yn trechu'r bwriad o gael mynd i mewn.

(5) Caiff swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre yn rhinwedd y paragraff hwn neu warant a gyhoeddwyd o dan y paragraff hwn fynd gydag ef unrhyw bersonau eraill y gall fod eu hangen, ac os aeth y swyddog i mewn i fangre nad oedd wedi'i meddiannu yn rhinwedd y cyfryw warant, rhaid iddo ei gadael wedi'i diogelu yn erbyn tresmaswyr yr un mor effeithiol ag ydoedd pan aeth i mewn iddi.

(6) Bydd gwarant a gyhoeddwyd o dan y paragraff hwn yn parhau i fod mewn grym nes y diwallwyd y rheswm yr oedd angen cael mynediad iddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** Atod. 1 para. 6 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 9(3)**

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Measure yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011. (See end of Document for details)*

*Profion cydymffurfio â gofynion y Mesur hwn*

7 (1) Mae gan y paragraff hwn rym at ddiben galluogi awdurdod lleol i ganfod a yw unrhyw waith adeiladu, neu waith adeiladu sydd yn yr arfaeth, y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddo, wedi cydymffurfio, neu yn mynd i gydymffurfio, ag unrhyw ofyniad yn y Mesur hwn y mae'n ddyletswydd i'r awdurdod ei orfodi.

(2) Mae gan yr awdurdod lleol bŵer at y diben hwnnw—

(a) i'w gwneud yn ofynnol i'r person a wnaeth y gwaith, neu y gwnaed, gwneir, neu y bwriedir gwneud y gwaith ar ei ran, i gynnal y cyfryw brofion rhesymol ar y gwaith neu mewn perthynas ag ef a ragnodir yn y gofyniad, neu

(b) i gynnal profion rhesymol ei hun ar y gwaith neu mewn perthynas ag ef.

(3) Heb ragfarnu cyffredinolrwydd is-baragraff (2) uchod, mae'r materion y caniateir gofyn am gynnal profion yn eu cylch, neu y ceir cynnal profion yn eu cylch, o dan yr is-baragraff hwnnw yn cynnwys profi unrhyw ddeunydd, elfen neu gyfuniad o elfennau a ddefnyddir, neu y mae'n fwriad eu defnyddio, wrth wneud y gwaith, ynghyd â phrofi unrhyw wasanaeth, ffitiad neu offer sydd wedi'i ddarparu, neu sy'n cael ei ddarparu neu a fwriedir ei ddarparu mewn perthynas â'r gwaith hwnnw.

(4) Rhaid i'r person y mae'n ofynnol o dan y paragraff hwn iddo gynnal y profion dalu costau cynnal y profion, ac eithrio os bydd yr awdurdod lleol, pan wneir cais i'r awdurdod, yn penderfynu ei fod yn rhesymol cyfarwyddo'r awdurdod lleol i dalu costau cynnal y profion, neu unrhyw ran o'r costau ag a ragnodir yn y cyfarwyddyd hwnnw.

(5) Caiff unrhyw gwestiwn sy'n codi o dan y paragraff hwn rhwng awdurdod lleol a pherson ynghylch rhesymoldeb—

(a) prawf a ragnodir yn y gofyniad a orfodwyd ar y person hwnnw gan yr awdurdod o dan y paragraff hwn,

(b) yr awdurdod wrth wrthod rhoi cyfarwyddyd o dan is-baragraff (4) ar gais y person hwnnw, neu

(c) cyfarwyddyd o dan yr is-baragraff hwnnw a roddir ar gais o'r fath,

gael ei benderfynu gan lys ynadon ar gais y person hwnnw, ac, o ran achos sy'n codi o dan is-baragraff (b) neu (c), caiff y llys orchymyn bod yn rhaid i'r awdurdod lleol dalu'r gost y mae'r cais yn ymwneud â hi, i'r graddau y mae'r llys yn barnu sy'n gyfiawn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Atod. 1 para. 7 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 9(3)**

*Iawndal am ddifrod*

8 (1) Rhaid i awdurdod lleol dalu iawndal llawn i berson am unrhyw ddifrod a achoswyd wrth i'r awdurdod lleol arfer ei bwerau o dan y Mesur hwn, a hynny mewn perthynas â mater pan nad oedd diffyg ar ran y person hwnnw.

(2) Rhaid datrys unrhyw anghydfod sy'n codi o dan y paragraff hwn, boed ynghylch pa un a achoswyd unrhyw ddifrod neu ynghylch swm yr iawndal, drwy gyfrwng cymrodeddu, a hynny gan un cymrodeddwr sydd i'w benodi gyda chytundeb y partïon, neu, os nad oes cytundeb, sydd i'w benodi gan Weinidogion Cymru.

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Measure yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** Atod. 1 para. 8 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 9(3)**

*Gweithdrefn ar apêl neu gais*

9 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys ar gyfer—

(a) apêl at lys ynadon o dan baragraff 5, neu
(b) gais i lys ynadon o dan baragraff 7(5).

(2) Pan fydd y paragraff hwn yn gymwys, y weithdrefn bydd trwy gwŷn am orchymyn.

(3) Rhaid dwyn yr apêl o dan baragraff 5 o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad paragraff 3 arno.

(4) Rhaid gwneud cais o dan baragraff 7(5) o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad pryd —

(a) yn achos cais sy'n ymwneud â rhesymoldeb prawf a ragnodwyd yn y gofyniad a orfodwyd gan awdurdod lleol, y rhoddwyd i'r ceisydd hysbysiad o'r gofyniad hwnnw gan yr awdurdod,
(b) yn achos cais sy'n ymwneud â gwrthodiad yr awdurdod i roi cyfarwyddyd o dan baragraff 7(4), y rhoddwyd hysbysiad o'r gwrthodiad hwnnw i'r ceisydd, ac
(c) yn achos cais sy'n ymwneud â chyfarwyddyd a roddwyd gan awdurdod lleol o dan baragraff 7(4), y rhoddwyd hysbysiad o'r cyfarwyddyd hwnnw i'r ceisydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** Atod. 1 para. 9 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 9(3)**

*Rhwystro*

10 Bydd person sy'n fwriadol yn rhwystro person arall a hwnnw'n gweithio er mwyn gweithredu'r Mesur hwn neu warant a gyhoeddwyd oddi tano yn euog o dramgwydd, a bydd yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 1 ar y raddfa safonol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** Atod. 1 para. 10 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 9(3)**

*Statws Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Measure yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011. (See end of Document for details)*

## ATODLEN 2 E+W

*(fel y'i cyflwynwyd gan adran 2)*

## GWAITH ADEILADU A ORUCHWYLIR GAN RYWUN AC EITHRIO AWDURDODAU LLEOL

### *Effaith hysbysiad cychwynnol o dan Ran 2 o Ddeddf 1984*

1 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fydd hysbysiad cychwynnol mewn grym a bydd unrhyw waith a ragnodir yn yr hysbysiad yn cynnwys gwaith adeiladu y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddo (pa un ai'r gwaith i gyd neu ran ohono ydyw).

(2) Cyhyd â bod yr hysbysiad cychwynnol yn parhau i fod mewn grym mewn perthynas â'r gwaith hwnnw—

(a) ni fydd adran 3 yn gymwys mewn perthynas â'r gwaith hwnnw, a

(b) ni fydd y swyddogaeth o orfodi darpariaethau'r Mesur hwn a roddir i awdurdod lleol yn adran 2(1) yn cael ei harfer mewn perthynas â'r gwaith hwnnw, ac felly ni chaiff awdurdod lleol, mewn perthynas â'r gwaith hwnnw—

(i) ddwyn achos mewn perthynas ag unrhyw dramgwydd a gyflawnwyd o dan baragraff 1 Atodlen 1, neu

(ii) cymryd unrhyw gamau eraill i orfodi'r Mesur hwn nac unrhyw ofyniad a geir ynddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** Atod. 2 para. 1 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 9(3)**

### *Effaith hysbysiad corff cyhoeddus o dan Ran 2 o Ddeddf 1984*

2 (1) Pan fydd hysbysiad corff cyhoeddus mewn grym a phan fydd unrhyw waith a ragnodir yn yr hysbysiad yn cynnwys gwaith adeiladu y mae'r Mesur hwn yn gymwys iddo (pa un ai'r gwaith cyfan neu ran ohono)—

(a) ni fydd adran 3 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw waith a ragnodir yn yr hysbysiad hwnnw, a

(b) ni fydd modd arfer y swyddogaeth a roddir i awdurdod lleol gan adran 2(1) i orfodi darpariaethau'r Mesur hwn mewn perthynas â'r gwaith hwnnw ac, o ganlyniad, ni chaiff awdurdod lleol, mewn perthynas â'r gwaith hwnnw—

(i) dwyn achos mewn cysylltiad ag unrhyw dramgwydd a gyflawnwyd o dan baragraff 1 o Atodlen 1, neu

(ii) cymryd unrhyw gamau eraill i orfodi'r Mesur hwn neu unrhyw ofyniad a geir ynddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I24** Atod. 2 para. 2 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 9(3)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) Measure yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011.